O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

# Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 sy'n cydategu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/262 sy'n nodi rheolau yn unol â Chyfarwyddebau'r Cyngor 90/427/EEC a 2009/156/EC o ran dulliau adnabod equidae yng Nghymru ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â gorfodi'r Rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni 4 Chwefror 2019*

*Gwnaed 11 Chwefror 2019*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru 13 Chwefror 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno (sy'n ymwneud a gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2018 p. 16.

**Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6(1), yn lle "a aned yn yr Undeb Ewropeaidd" rhodder "a aned mewn Aelod-wladwriaeth neu yn y Deyrnas Unedig".

(3) Ym mhennawd rheoliad 7, yn lle "i'r Undeb Ewropeaidd" rhodder "i'r Deyrnas Unedig o wlad heblaw Aelod-wladwriaeth".

(4) Yn rheoliad 13(3)(b), yn lle "Aelod-wladwriaeth arall" rhodder "Aelod-wladwriaeth".

(5) Yn rheoliad 33, yn lle paragraff (4) rhodder—

> "(4) Caiff yr arolygydd fynd gydag unrhyw bersonau eraill a ystyrir gan yr arolygydd yn angenrheidiol.".

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
11 Chwefror 2019

(**1**) O.S. 2019/57 (Cy.20).